OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2736 (Cy.243)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*19 Hydref 2004*
Yn dod i rym - -	*8 Tachwedd 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru(**2**), a phob pŵer arall sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 8 Tachwedd 2004.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1989" yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Cynnydd cyffredinol mewn ffioedd

2.—(1) Diwygir Rheoliadau 1989, yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 10A o Reoliadau 1989—

(a) ym mharagraff (5)(b), yn lle "£110" rhowch "£120"; a

(b) ym mharagraff (6), yn lle "£220" rhowch "£240" ac yn lle "£11,000" rhowch "£12,100".

(3) Yn rheoliad 11A o Reoliadau 1989—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "£40" rhowch "£45"; a

(**1**) 1990 p. 8.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 303, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo ac maent yn arferadwy bellach, mewn perthynas â Chymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253 (Cy. 5)) ac Atodlen 3 iddo.

(**3**) O.S. 1989/193, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/2743, 1991/2735, 1992/1817, 1992/3052, 1993/3170 a 1997/37 ac fel y'i diwygiwyd ymhellach, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2002/1876 (Cy.185) a 2002/2258 (Cy.222).

(b) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£220" rhowch "£240".

(4) Yn Rhan I o Atodlen 1 i Reoliadau 1989—

(a) ym mharagraffau 4(1) a 6(2), yn lle "£220" rhowch "£240";

(b) ym mharagraffau 7, 7A a 7B, yn lle "£110" rhowch "£120"; ac

(c) ym mharagraff 15(2), yn lle "£220" rhowch "£240" ac yn lle "£5,550" rhowch "£6,050".

(5) Yn lle Rhan II o Atodlen 1 i Reoliadau 1989 (graddfa ffioedd), rhowch y Rhan II newydd a welir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(6) Yn lle Atodlen 2 i Reoliadau 1989 (graddfa ffioedd am geisiadau am hysbysebu), rhowch yr Atodlen 2 newydd a welir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

Dirymu

3. Dirymir drwy hyn Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2002(**4**) ac, mewn perthynas â Chymru, paragraff 11 o Ran I o Atodlen 1 i Reoliadau 1989.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

D. Elis-Thomas
19 Hydref 2004 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) O.S. 2002/2258 (Cy.222).
(**5**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Rheoliad 2(5)

PART II OF SCHEDULE 1 TO THE 1989 REGUALTIONS

"SCALE OF FEES IN RESPECT OF APPLICATIONS MADE OR DEEMED TO BE MADE ON OR AFTER 8 NOVEMBER 2004

Category of development	*Fee payable*
I. Operations	
1. The erection of dwellinghouses (other than development within category 6 below).	(a) where the application is for outline planning permission, £240 for each 0.1 hectare of the site area, subject to a maximum of £6,050; (b) in other cases, £240 for each dwellinghouse to be created by the development, subject to a maximum of £12,100.
2. The erection of buildings (other than buildings in categories 1, 3, 4, 5 or 7)	(a) where the application is for outline planning permission, £240 for each 0.1 hectare of the site area, subject to a maximum of £6,050; (b) in other cases, where— (i) no floor space is to be created by the development, £120, (ii) the area of gross floor space to be created by the development does not exceed 40 square metres, £120, (iii) the area of gross floor space to be created by the development exceeds 40 square metres but does not exceed 75 square metres, £240, and (iv) the area of gross floor space to be created by the development exceeds 75 square metres, £240 for each 75 square metres, subject to a maximum of £12,100.
3. The erection, on land used for the purposes of agriculture, of buildings to be used for agricultural purposes (other than buildings coming within category 4).	(a) where the application is for outline planning permission, £240 for each 0.1 hectare of the site area, subject to a maximum of £6,050; (b) in other cases, where— (i) the area of gross floor space to be created by the development does not exceed 465 square metres, £45,